# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 27 Ebrill 2023**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Catrin Wager
Y Cynghorydd Neville Hughes

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Einir Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Walter Williams

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Dyfrig Jones.

**Ymddiheuriadau** – y Cyng. Mary Jones.

**2. Trafodaeth gyda David Charles Williams, Tîm Tacluso Arfon**

Cafwyd sgwrs gyda David Williams ynglŷn a rhaglen waith y Tîm Tacluso. Cadarhawyd mai dim ond y Cynghorwyr Sir a'r Clerc sydd yn gallu adrodd am broblemau yn yr ardal, felly os yw'r aelodau yn gweld unrhyw beth yn yr ardal sydd angen sylw, iddynt gysylltu hefo'i Cynghorwr Lleol neu Clerc y Cyngor. Diolchwyd i David am fynychu'r cyfarfod.

**3. Chris Roberts, GwyrddNi**

Cafwyd diweddariad gan Chris am yr Cynulliad Cymunedol. Nodwyd fod Gwyl Hinsawdd Dyffryn Ogwen yn gael ei gynnal ar ddydd Llun, 1af o Fai yn Llys Dafydd. Cytunwyd y bydd Chris yn danfon y wybodaeth ymlaen at y Clerc, a'r Clerc i gylchredeg y wybodaeth i'r aelodau. Diolchwyd i Chris a'r cynulliad am eu gwaith caled.

**4. Datgan Diddordeb**

Cyng. Huw Jones yn datgan diddordeb ar cais cynllunio – Plot 11, Stad Llwyn Bedw, Rachub.

**5. Materion Brys**

**5.1** Pwyllgor Rheoli Neuadd Ogwen – Gofynnwyd y Cyng. Walter Williams am gadarnhad o cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned ar bwyllgor Rheoli Neuadd Ogwen. Nodwyd mai y Cyngr. Walter Williams, Einir Wiliiams, Mary Jones a Bleddyn Williams sydd yn cynrychioli'r Cyngor ar hyn o bryd, ond efallai y bydd hyn yn newid yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor mis nesaf.

**6. Cofnodion**
Nodwyd fod angen addasu'r brawddeg yn eitem 2 o Cyng. Linda Brown i Cyng. Ann Williams. Yn dilyn yr newidiadau yma, cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2023.

**7. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**7.1 YGC – Sherpa Shelters** – Nodwyd fod y sgrîn weid gael ei osod, ac mae Scottish Power wedi cadarnhau bod y gwaith ar ochr nhw wedi gael ei gwblhau. Nodwyd fod y cwmni sydd wedi gosod y sgrîn yn ymwybodol ac yn gobeithio y bydden nhw yn dod allan i'r safle yn yr wythnosau nesaf.
**7.2 Golau Stryd Llidiart y Gwenyn** –Y Clerc wedi cael gwybod pwy yw perchennog y tir drwy'r Cofrestra Tir – nodwyd mai tir preifat yw hwn, felly nid yw'n bosib i'r Cyngor Cymuned trefnu nag ariannu'r gwaith hwn.
**7.3 'Parallel Bars' ar gyfer Cae Chwarae Rachub** – Y Clerc wedi archebu'r offer, ac fod 8 wythnos o ddigwyl. Ar ôl iddyn nhw gyrraedd, y Clerc i drefnu i contractwr lleol i ymgymryd a'r gwaith gosod.
**7.4 Lloches Bws Lon Newydd –** Adroddwyd fod y Clerc wedi archebu'r lloches bws, ac fydd y lloches yn gael ei ddanfon yn syth at y contractwr – ar y gweill.

**8. Sedd Wag – Rachub**
Derbyniwyd dau gais am y sedd wag. Yn dilyn pleidlais, cafodd Elin Prysor Williams ei gyfethol i'r sedd wag.

**9. Llwybrau Cyhoeddus**
**Llwybr Parc Meurig –** Nodwyd fod y Clerc wedi gael ymweliad gan Dafydd Cadwaladr ynglŷn a'r llwybr hwn, ac fod angen gwaith cynnal yma. Adroddwyd hefyd fod y cytundeb rhwng y Cyngor a'r perchnogion wedi dod i ben ers 2018, felly penderfynwyd fod angen adnewyddu'r les. Penderfynwyd llunio Grwp Tasg i drafod y les a'r gwelliannau – y Cyngr. Neville Hughes, Walter Williams a Catrin Wager wedi rhoid ei henwau ymlaen. Y Clerc i drefnu cyfarfod cyn gynted a phosib.
**Llwybr o gyfeiriad Ogwen Bank at Stryd Jams** – Nodwyd fod y llwybr hwn wedi gor dyfu – y Clerc i wneud yn siwr fod y contractwr yn cynnwys y llwybr hwn ar ei rhaglen waith.
**Llwybrau - Gernant tuag at Caerberllan, Pant Glas i Capel Jeriwsalem, Stryd y Ffynnon at Bont Caseg –** Nodwyd fod llawer o fwsog ar y llwybrau yma, ac ei fod yn ofandwy o llithrig – y Cynghorwyr lleol i adrodd i'r Tîm Tacluso.

**10. Maes Parcio Gerlan**
Dim diweddariad pellach, disgwyl i pryniant y tir gael ei gwblhau.

**11. Adroddiad Ariannol**
Pawb wedi derbyn copi y cofnodion y cyfarfod a'r adroddiad cyllid. Cafwyd crynodeb gan y Cyng. Neville Hughes. Derbyniwyd yr adroddiad.

**12. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2023'
**12.1** Adran Trwyddedu, Cyngor Gwynedd – Trwydded Clwb Rygbi Bethesda – penderfynwyd fod y Cyngor Cymuned yn cefnogi' cais am drwydded.
**12.2** Cyngor Gwynedd – Holiadur Perfformiad Cyngor Gwynedd – penderfynwyd i'r aelodau cwblhau'r holiadur fel unigolion.

**12.3** Carnifal Bethesda – Cais am rhodd – Penderfynwyd rhoid rhodd o £500 at y carnifal.
**12.4** Cyngor Cymuned Pistyll – Diffyg hyfforddiant yn y Gymraeg – Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi, ac yn annog i'r aelodau fynychu unrhyw hyfforddiant sydd yn gael ei gynnig yn y Gymraeg .

**13. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**

**Penderfyniadau**

| | |
|---|---|
| **C22/0256/13/LL**<br>Brig y Nant, Lon Newydd Coetmor | Codi 18 tŷ, ffordd newydd a thirlunio<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C22/1039/13/DT**<br>1 Rallt Uchaf, Gerlan | Codi porth mynediad blaen newydd a modurdy ar ochr yr eiddo<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C22/0811/13/LL**<br>Clwb Pel Droed, High Street, | Adeiladu maes hyfforddi pob tywydd 3G gyda ffensys a goleuadau cysylltiedig.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0073/13/DA**<br>Plot 3, Yr Ardd, Gerlan | Diwygiad ansylweddol i'r cynlluniau a gymeradwywyd drwy ganiatad cynllunio C16/0007/13/ll a C21/0682/13/AC ar gyfer codi ty deulawr er mwyn codi annedd mwy.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau |

**Ceisiadau**

| | |
|---|---|
| **C28/0282/13/RC**<br>Plot 11, Stad Llwyn Bedw, Rachub | Cais i ddiddymu cytundeb 106 (tŷ fforddiadwy) oddi wrth ganiatâd C09A/0067/13/AM ac yn ddiweddarach caniatâd rhif C15/0007/13/LL.<br>**Penderfyniad:** Dim sylw. |

**14. Taliadau**

| | | |
|---|---|---|
| John Wyn Jones | Cyflog mis Ebrill | £364.00 |
| CThEM | Treth mis Ebrill | £91.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio | £26,179.22 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £520.60 |

| | | |
|---|---|---|
| Scottish Power | Trydan Gorffwysfan | £19.90 |
| Un Llais Cymru | Aelodaeth 2023-24 | £860.00 |